

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2021 No. 481

Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021

RHAN 6

**DIWYGIADAU I REOLIADAU ADDYSG
(CYMORTH I FYFYRWYR) (CYMRU) 2018**

Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2018

130. Yn Atodlen 2, yn lle paragraff 2ZA rhodder—

“Categori 2ZA – Personau a ddiogelir ac aelodau o’u teuluoedd

2ZA.—(1) Person—

- (a) y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir,
- (b) sy’n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a’r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly er pan roddwyd y caniatâd hwnnw iddo, ac
- (c) sy’n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

- (a) sy’n briod neu’n bartner sifil a ddiogelir,
- (b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros, yn briod neu’n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir (yn rhinwedd diogelwch dyngarol o dan baragraff 339C o’r rheolau mewnfudo neu fel person diwladwriaeth o dan y rheolau mewnfudo),
- (c) sy’n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a’r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly er pan roddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i’r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi, a
- (d) sy’n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(3) Person—

- (a) sy’n blentyn a ddiogelir,
- (b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros—
 - (i) o dan 18 oed, a
 - (ii) yn blentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir neu, yn ôl y digwydd, yn blentyn i berson a oedd yn briod neu’n bartner sifil i’r person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir ar y dyddiad hwnnw (yn rhinwedd diogelwch dyngarol o dan baragraff 339C o’r rheolau mewnfudo, caniatâd i aros fel

person diwladwriaeth o dan y rheolau mewnfudo neu adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2016 a'r rheolau mewnfudo, yn ôl y digwydd),

- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly er pan roddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi, a
- (d) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(4) Yn y paragraff hwn—

- (a) ystyr “dyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros” yw'r dyddiad y gwnaeth person (“P”) gais am ganiatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi sy'n arwain at P yn dod yn berson y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir,
- (b) ystyr “caniatâd i ddod i mewn neu i aros fel person a ddiogelir” yw—
 - (i) person y rhoddwyd diogelwch dyngarol iddo,
 - (ii) person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth,
 - (iii) person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67, neu
 - (iv) person sydd â chaniatâd Calais,
- (c) ystyr “person y rhoddwyd diogelwch dyngarol iddo” yw person a chanddo ganiatâd cyfredol i ddod i mewn neu i aros ar sail diogelwch dyngarol o dan baragraff 339C o'r rheolau mewnfudo,
- (d) ystyr “person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth” yw person a chanddo ganiatâd cyfredol i aros ar sail caniatâd fel person diwladwriaeth o dan y rheolau mewnfudo,
- (e) ystyr “person sydd â chaniatâd Calais” yw person a chanddo ganiatâd cyfredol i aros o dan baragraffau 352J, 352K, 352L neu 352T o'r rheolau mewnfudo (caniatâd Calais a “caniatâd oherwydd llinach” a roddir yn rhinwedd bod yn blentyn dibynnol i berson y rhoddwyd caniatâd Calais iddo),
- (f) ystyr “person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67” yw person a chanddo ganiatâd cyfredol i aros o dan adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2016 ac yn unol â'r rheolau mewnfudo,
- (g) ystyr “plentyn a ddiogelir” yw—
 - (i) plentyn i—
 - (aa) person y rhoddwyd diogelwch dyngarol iddo,
 - (ab) person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth, neu
 - (ac) person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67, neu
 - (ii) plentyn i briod neu bartner sifil—
 - (aa) person y rhoddwyd diogelwch dyngarol iddo, neu
 - (ab) person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth,
- (h) ystyr “priod neu bartner sifil a ddiogelir” yw priod neu bartner sifil i—
 - (i) person y rhoddwyd diogelwch dyngarol iddo, neu
 - (ii) person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth.”